# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

**RHAN 3**

TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

**PENNOD 2**

MANWERTHWYR TYBACO A CHYNHYRCHION NICOTIN

*Gorfodi*

PROSPECTIVE

**42 Gwarant i fynd i mewn i fangreoedd eraill**

(1) Caiff ynad heddwch arfer y pŵer yn is-adran (4) mewn perthynas â mangre yng Nghymru ac eithrio mangre a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig ar lw—

(a) bod seiliau rhesymol dros gredu bod trosedd o dan adran 38(1), (2) neu (4) wedi ei chyflawni yn ardal awdurdod lleol,

(b) ei bod yn angenrheidiol mynd i mewn i'r fangre at ddiben canfod a yw trosedd o'r fath wedi ei chyflawni, ac

(c) bod gofyniad a nodir yn is-adran (2) neu (3) wedi ei fodloni.

(2) Y gofyniad yw—

(a) bod gofyn am fynd i mewn i'r fangre wedi ei wrthod neu'n debygol o gael ei wrthod, a

(b) bod hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon wedi ei roi i'r meddiannydd neu berson yr ymddengys yn rhesymol i'r awdurdod lleol ei fod yn ymwneud â rheoli'r fangre.

***Statws*** *Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 42 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(3) Y gofyniad yw bod gofyn am fynd i mewn i'r fangre, neu roi hysbysiad o fwriad i wneud cais am warant o dan yr adran hon, yn debygol o danseilio diben y mynediad.

(4) Caiff yr ynad ddyroddi gwarant sy'n awdurdodi swyddog awdurdodedig i'r awdurdod lleol i fynd i mewn i'r fangre, drwy rym os oes angen.

(5) Mae'r warant yn parhau mewn grym tan ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r dyddiad y'i dyroddwyd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 42 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 126(2)**

**Statws**
Mae'r fersiwn hon o'r ddarpariaeth hon yn rhagolygol.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017, Adran 42 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 01 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**
– specified provision(s) amendment to earlier commencing S.I. 2017/949, art. 3 by S.I. 2017/967 art. 2